# PROSIECTAU ADEILADU EGLWYSIG A DIOGELWCH

**Cyflwyniad**
Mae'n hanfodol bod prosiectau adeiladu yn cael eu cynnal yn ddiogel. Mae Iechyd a Diogelwch wrth Adeiladu yn cael ei lywodraethu gan Reoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2015. Mae canllawiau manwl ar y rheoliadau hyn ar gael yn Adran Canllawiau gwefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn: https://www.hse.gov.uk/.

Mae'r canllawiau canlynol yn rhoi trosolwg o'r rheoliadau hyn i'r Cynghorau Plwyf Eglwysig.

**1. Gwaith Bach**
Ar gyfer gwaith bach yn defnyddio un contractwr:

- Dylech fod yn fodlon fod gan eich contractwr y sgiliau, y profiad a'r adnoddau angenrheidiol i wneud y gwaith.
- Dylech fod yn fodlon fod gan eich contractwr Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus.
- Dylech ofyn i'ch contractwr nodi, yn ysgrifenedig, ei gynllun ar gyfer rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r swydd. Cynllun y Cyfnod Adeiladu yw'r enw ar hyn a dylai nodi sut y bydd y contractwr yn rheoli iechyd, diogelwch a lles. Efallai y byddwch am weithio gyda'ch Contractwr i baratoi'r cynllun hwn.

**2. Prosiectau Mwy**
Gyda gwaith mwy sylweddol gyda sawl contractwr, mae dyletswyddau penodol wedi'u nodi yn y Rheoliadau. Y Cyngor Plwyf Eglwysig fydd y *Cleient* o dan y Rheoliadau hyn gyda'r cyfrifoldeb cyffredinol i wneud trefniadau addas ar gyfer rheoli prosiect.

Y cam cyntaf allweddol ar gyfer y Cyngor Plwyf Eglwysig yw trafod diogelwch gyda'ch pensaer neu'ch syrfëwr cyn gynted â phosibl er mwyn i'r Cyngor allu rhoi'r trefniadau ar waith a bod y deiliaid dyletswydd fel CDM 2015 yn gallu rhagnodi'r gofynion ar ddechrau prosiect.

Mae'n rhaid i'r Cyngor Plwyf Eglwysig sicrhau bod trefniadau rheoli diogelwch yn cael eu rhoi ar waith, ond mae'r Rheoliadau yn cydnabod nad yw'r Cyngor Plwyf Eglwysig fel Cleient o bosibl yn gwybod llawer am iechyd a diogelwch wrth adeiladu, felly nid oes disgwyl iddynt reoli'r holl agweddau hyn eu hunain.

Y brif ffordd y bydd y Cyngor Plwyf Eglwysig yn bodloni ei rwymedigaethau statudol yw trwy benodi'r hyn y mae'r Rheoliadau yn ei alw yn *Brif Ddylunydd*. Mae'r prif ddylunydd yn gyfrifol am gynllunio, rheoli, monitro a chydlynu iechyd a diogelwch yng nghyfnod cyn adeiladu prosiect a chadw mewn cysylltiad â'r prif gontractwr i helpu i gynllunio, rheoli a monitro iechyd a diogelwch yn y cyfnod adeiladu.

Bydd y Prif Ddylunydd yn gofyn i'r Cyngor Plwyf Eglwysig am wybodaeth ynghylch problemau iechyd a diogelwch ac mae'n rhaid i'r Cyngor eu rhannu os gall wneud hynny. Adroddiad rheoli asbestos cyfredol fydd un o'r darnau gwybodaeth pwysicaf.

Argymhellir bod gan aelod o dîm prosiect y Cyngor Plwyf Eglwysig friff penodol ar gyfer materion diogelwch ac er nad oes angen iddynt fod yn weithwyr diogelwch proffesiynol, dylent fod yno i ofyn cwestiynau i'r pensaer a'r contractwr ar faterion diogelwch yn seiliedig ar synnwyr cyffredin a'u harsylwadau. Dylai Iechyd a Diogelwch fod yn eitem sefydlog mewn cyfarfodydd prosiect fel eu bod bob amser yn cael eu hystyried ymhob cam o'r prosiect.

Alex Glanville
Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo
Yr Eglwys yng Nghymru

23 Awst 2019